# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)20-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth, 1 Gorffennaf 2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Siwan Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**(i) BC(3)19-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 24 Mehefin 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i Ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)20-08(p1)**

3.1 Cytunodd y pwyllgor na ddylai'r cyfnod pleidleisio ddigwydd cyn 4.30pm ar gyfer busnes y Llywodraeth ddydd Mawrth a busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ddydd Mercher.

3.2 Nododd y Pwyllgor y drefn busnes ar gyfer 1 a 2 Gorffennaf 2008.

Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)20-08(p2)

3.3 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai datganiad Deddfwriaethol ar y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) yn digwydd ddydd Mawrth, 8 Gorffennaf.

3.4 Nododd y Pwyllgor Amserlen busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf.

Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)20-08(p3)

3.5 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitemau o fusnes heblaw busnes y Llywodraeth a busnes y Cynulliad a ganlyn:

Cynigion i Sefydlu ac Ethol Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig Dysgu a Sgiliau (1 mun) ar 9 Gorffennaf;

Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Ariannu Sefydliadau Gwirfoddol yng Nghymru (60 munud) ar 16 Gorffennaf;

Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Darlledu ar ddyfodol Darlledu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru (60 munud) ar 16 Gorffennaf; a

Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar yr ymchwiliad i gynigion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer ymgynghori ar

strwythur y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru (60 munud) ar 24 Medi.

3.6 Cytunodd y  Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y llywodraeth.

**Papur ar Drefn Busnes y Cynulliad  - BC(3)19-08(p4)**

3.8 Gofynnodd y Llywydd i Reolwyr Busnes a oedd ganddynt unrhyw farn ymlaen llaw ar y papur ar  Drefn Busnes, a gyflwynwyd yn y cyfarfod blaenorol ac a ddosbarthwyd i bob Aelod wedi hynny. Dywedodd y Rheolwyr Busnes y byddent mewn sefyllfa i gyflwyno barn eu pleidiau yn y cyfarfod nesaf .

**4. Rheol Sefydlog 25: Gweithdrefn Cynulliad Arbennig**

**Cynnig ar gyfer diwygio Rheol Sefydlog 25 a'r Canllawiau cysylltiedig i Aelodau; ac i sefydlu Pwyllgor Gweithdrefn Cynulliad Arbennig (A40 Gorchymyn drafft Penblewin ) - BC(3)20-08(p4) ac Atodiadau**

4.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod papur ar gynigion i sefydlu Pwyllgor Gweithdrefn Cynulliad Arbennig i ystyried deisebau yn erbyn y Gorchymyn Gweithdrefn Cynulliad Arbennig cyntaf sydd i'w gyflwyno gan Lywodraeth y Cynulliad -  "Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (A40) (Gwelliant Penblewin i Barc Slebets) 200-".

4.2 Nodwyd, gan y byddai gan y Pwyllgor swyddogaeth led-farnwrol, y dylid darparu hyfforddiant i'r Pwyllgor.  Rhoddodd Adrian Crompton sicrhad i'r Rheolwyr Busnes y byddai'r clerc a'r staff cyfreithiol sy'n cefnogi'r Pwyllgor yn darparu hyfforddiant a chyfarwyddyd i Aelodau cyn gynted ag yr oedd aelodaeth y Pwyllgor yn wybyddus.

4.3 Hefyd ystyriodd y Pwyllgor newidiadau i Reolau Sefydlog 25.19 a 25.20 a fyddai'n nodi'r rheolau perthnasol i fod yn aelod o'r Pwyllgor Gweithdrefn  Cynulliad Arbennig; a Chanllawiau drafft i Aelodau ar gynnal trafodion yn briodol mewn cysylltiad â Phwyllgorau Gweithdrefn Cynulliad Arbennig, a gyhoeddwyd yn unol â Rheol Sefydlog 2.17.  Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'n trosglwyddo sylwadau ar y canllawiau drafft i staff Gwasanaethau Seneddol y Cynulliad.

4.4 Cytunodd y Rheolwyr Busnes i enwebu aelodau ar gyfer y Pwyllgor, ar gyfer eu hethol cyn toriad yr haf.  Byddai cynnig i gytuno ar y diwygiadau i Reolau Sefydlog 25.19 a 25.20 a Chanllawiau drafft i Aelodau yn cael ei gyflwyno yn y Cyfarfod Llawn ar yr un pryd.

**5. Deddfwriaeth**

**Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy: Cais am gyfarfod ychwanegol  - BC(3)20-08(p5)**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais gan y Pwyllgor GCD arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy i gynnal cyfarfod ffurfiol ddydd Mawrth, 8 Gorffennaf 2008.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**